# Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022

**359- Beirniadaeth Rhyddiaith Blwyddyn 8 a 9 i ddysgwyr**

**Beirniad – Menna Davies**

Derbyniwyd pedair ymgais i'r gystadleuaeth, ond yn dilyn cyfarwyddwyd ni ellid ystyried un ohonynt gan mai darn o farddoniaeth ydoedd yn hytrach na darn o ryddiaith. Rhaid dweud roedd hi'n bleser darllen y gerdd - dal ati 'Olivia'!

Dyma air byr am y ceisiadau eraill.

Dewisodd ARTHUR ysgrifennu ymson cenhinen bedr gan ddisgrifio bywyd y genhinen fel ag yr oedd cyn dechrau'r chwyldro diwydiannol pan roedd hi'n "wynfyd" ar ein blodyn cenedlaethol. Ond daeth tro ar fyd a daeth bygythiad i'r byd naturiol gyda dyfodiad y "concrid cadarn". Mae gobaith ar ddiwedd y darn pan sonnir am Fawrth 1af - y dydd pan fydd "lliwiau ac arogl [y genhinen] yn gorlifo'r strydoedd wrth i ddynoliaeth barhau". Rhaid canmol ARTHUR am ddefnyddio iaith a mynegiant graenus ac ymestynnol. Hefyd, mae'n dangos gwreiddioldeb ac aeddfedrwydd hynod ac mae'n llawn dychymyg.

Ysgrifennu am ei gwyliau yn Ffrainc a wnaeth BRANWEN tra ysgrifennodd CERIDWEN am ei hantur gyda'i theulu i barc thema. Dengys y ddwy ddefnydd gadarn o'r ferf, ansoddeiriau ac adferfau. Mae ymgais gan y ddwy hefyd i amrywio dechrau brawddegau a gwelir ambell ebychnod i fynegi teimlad. Mae darn BRANWEN yn rhagori ychydig ar ymgais CERIDWEN gan fod ynddo ychydig mwy o fanylion, trefn a datblygiad.

Diolch o galon ichi am gystadlu a daliwch ati. Diolch hefyd i'ch athrawon am eich annog.

1af - Arthur Templeman-Lilley
2il - Bethan Evans
3ydd - Cerys Allen